RenewableUK CYMRU

# Pweru Ymlaen

## Partneriaeth ar gyfer Grid



Mae tri rhwystr strategol yn atal Cymru rhag sicrhau dyfodol ynni glân: ein rhwydwaith grid, cynllunio a system gydsynio, a pharodrwydd porthladd a chadwyn gyflenwi. Mae gan bob un ei heriau unigryw ond maen nhw'n effeithio ar ei gilydd ac mae'n rhaid mynd i'r afael â nhw ar y cyd.

Mae'r papur briffio hwn yn amlygu'r rheidrwydd i Lywodraeth Cymru sefydlu partneriaeth gyflawni gyda rhanddeiliaid ynni adnewyddadwy i **sicrhau dull strategol o ymdrin â seilwaith grid newydd.** Mae'n pwysleisio'r angen dybryd am uwchraddio'r grid, yn enwedig yn y Canolbarth, i gyrraedd targedau hinsawdd a sbarduno twf economaidd. Mae ystyriaethau allweddol yn cynnwys y ddadl rhwng ceblau trawsyrru tanddaearol ac uwchben, yn ogystal â phwysigrwydd ymgysylltu â'r gymuned a gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth. Mae'n cloi gyda chamau gweithredu i lunwyr polisi gefnogi'r gwaith o uwchraddio'r grid.

Mae uwchraddio capasiti a seilwaith y grid yn hanfodol ac yn angenrheidiol ar gyfer diogelwch ynni a thwf economaidd ein cenedl. Mae rhwydwaith trawsyrru'r grid yn debyg i draffordd, sy'n cludo trydan ar foltedd uchel ledled y wlad. Mae hefyd brosiectau dosbarthu strategol, megis y prif ffyrdd mwy lleol, sy'n cael eu datblygu i weithio ochr yn ochr â thrawsyrru yn rhan o'r ateb gorau posibl. Gyda'i gilydd, gall y rhain ddod ag ynni glân i'n cymunedau, datgloi'r manteision economaidd a chymdeithasol a ddaw yn ei sgil, a gwarantu bod Cymru'n aros ar y trywydd iawn i gyrraedd ei thargedau hinsawdd. Mae angen ateb cydgysylltiedig strategol ar Gymru ar gyfer uwchraddio'r grid mewn pryd i gyrraedd targedau sero net Llywodraeth Cymru. Er mwyn i'r wlad gyfan elwa, rhaid i ni adeiladu'r seilwaith hwn.

## Erbyn 2035

- Targed Llywodraeth Cymru yw i 100% o'n hanghenion trydan ddod o ynni adnewyddadwy. Rhagwelir y bydd swm pŵer y gwynt sy'n cysylltu â'n grid yn cynyddu hyd at **saith gwaith** y swm presennol.
- Rhagwelir y bydd angen **£58bn o fuddsoddiad i'r grid** ar y DU i bweru hyd at y raddfa o ynni adnewyddadwy a fynnir
- Mae National Grid yn nodi y bydd angen llenwi **400,000** o rolau ar draws y DU erbyn 2050 i gyrraedd ein targedau sero net. Er mwyn i seilwaith grid gael ei gyflwyno ar y cyflymder gofynnol, mae angen cynnydd sylweddol mewn sgiliau cadwyn gyflenwi ledled Cymru.
- Mae disgwyl i 4.5GW o wynt alltraeth sy'n arnofio yn y Môr Celtaidd ychwanegu **£1.4bn at economi Cymru.**

Mae cynlluniau ar gyfer 12GW pellach yn y Môr Celtaidd gan Ystâd y Goron yn tanlinellu'r angen dybryd i ehangu'r grid. Wrth i ddatblygwyr ynni adnewyddadwy geisio buddsoddi yng Nghymru, rhaid uwchraddio seilwaith y grid ochr yn ochr â'i gilydd i gefnogi'r gwaith o gyflawni prosiectau. Heb hyn, mae Cymru mewn perygl o ymddangos yn llai deniadol a cholli buddion economaidd i rannau eraill o'r DU.

## Ateb grid i ddatgloi Canolbarth Cymru

Er bod gan Ogledd a De Cymru linellau trawsyrru foltedd uchel y mae angen eu huwchraddio, nid oes gan Ganolbarth Cymru unrhyw seilwaith grid sylweddol o gwbl. Mae hyn yn atal y cyfle i fusnesau ynni-ddwys a chartrefi sy'n dibynnu ar olew a nwy i newid i ynni rhatach, glân. Mae mynd i'r afael â'r mater hwn yn hollbwysig i'n cymunedau gwledig ac economi ehangach Cymru. Ni ellir tanddatgan yr angen am ddatblygiad strategol a chyflym o'n grid.



## Gosod o dan y ddaear o'i gymharu â thros y ddaear

Ar hyn o bryd, safbwynt Llywodraeth Cymru yw y dylid gosod ceblau trawsyrru o dan y ddaear lle bynnag y bo modd. Mewn cyferbyniad, safiad Llywodraeth y DU yw mai dim ond dan amgylchiadau eithriadol y dylai ceblau fynd o dan y ddaear.

Mae adroddiad Comisiynydd Rhwydwaith Trydan Llywodraeth y DU yn tanlinellu'r safbwynt hwn. Mae'n datgelu y gall claddu ceblau gostio rhwng pump a deg gwaith yn fwy na gosod uwchben a'i fod yn fwy niweidiol i'r amgylchedd. Mae'r gost ychwanegol hon yn anochel yn arwain at filiau ynni sylweddol uwch i gartrefi a busnesau.

At hynny, mae Cynllun Gweithredu Cyflymu Trawsyrru Llywodraeth y DU yn amlinellu sut y dylai cymunedau elwa ar seilwaith trawsyrru, egwyddor y mae'n rhaid ei chynnal yng Nghymru drwy gydweithio â Llywodraeth Cymru.

Ym mis Gorffennaf 2023, rhyddhaodd Llywodraeth Cymru adroddiad arloesol - Gridiau Ynni'r Dyfodol i Gymru. Hwn oedd y tro cyntaf i hyn ddigwydd yn fyd-eang, roedd hwn yn eiriol dros ddull cynhwysfawr o ymdrin â rhwydweithiau nwy a thrydan, gan argymell bod Llywodraeth Cymru yn cydweithio â gweithredwyr rhwydwaith i addysgu cymunedau am fanteision ac effeithiau posibl cysylltiadau rhwydwaith, gan bwysleisio ymhellach arwyddocâd ymgysylltu cymunedol a gweithio mewn partneriaeth ym maes cynllunio seilwaith ynni.

## Sut y gallwch chi helpu?

1. Dangoswch eich cymorth drwy gymeradwyo grŵp gorchwyl a gorffen annibynnol gydag arweinydd Gweinidogol o Lywodraeth Cymru yn cynnwys swyddogion y llywodraeth, rhanddeiliaid grid a chynrychiolwyr y diwydiant. Gan weithio gyda'n gilydd, gallwn ni ddarparu'r sylfaen dystiolaeth gref sydd ei hangen i arwain uwchraddio grid yng Nghymru.
2. Anogwch Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru dros Ynni i ddefnyddio'r sylfaen dystiolaeth hon i nodi'r camau gweithredu gorau ar gyfer gwireddu dull strategol o ymdrin â seilwaith grid newydd.
3. Mynnwch y wybodaeth angenrheidiol i wasanaethu eich etholwyr ar y mater hwn.
   Darllenwch ein Cwestiynau Cyffredin a'n hastudiaethau achos defnyddiol
   Read our handy FAQs and case studies